


# Ymrwymiad cymorth mabwysiadu Cymru

Ein gweledigaeth yw i bob mabwysiadwr yng Nghymru gael cymorth ar bob cam o'u taith, boed ar y dechrau, pan fydd plentyn yn cael ei leoli, neu'n ddiweddarach os bydd problemau neu ymholiadau'n codi. Rydym am i chi deimlo'n hyderus y bydd gwybodaeth neu gymorth ar gael i chi pan fydd ei angen arnoch chi a gan weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth arbenigol am anghenion mabwysiadu a gofal plant.

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru (GMC) wedi ymrwymo i bob teulu mabwysiadol gael y canlynol:

## Pwynt cyswllt:

Bydd gennych berson i gysylltu ag ef yn eich Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol neu Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol cyn ac ar ôl i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei roi.

## Cefnogaeth barhaus gan eich Tîm Mabwysiadu Rhanbarthol neu'ch Gwasanaeth Mabwysiadu Gwirfoddol

Bydd anghenion eich plentyn yn wahanol ar wahanol adegau o'i fywyd. Gallwch ddisgwyl cael help a chyngor gan weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth a phrofiad arbenigol mewn mabwysiadu ar unrhyw adeg yn ystod ei blentyndod.

Bydd eich asiantaeth fabwysiadu yno i gynnig help os oes ei angen arnoch. Bydd anghenion cymorth mabwysiadu eich plentyn / plant yn cael eu hadolygu gan eich asiantaeth wrth i'w hanghenion nhw, neu'ch amgylchiadau eich hun newid. Byddant naill ai'n darparu cymorth yn uniongyrchol neu'n trefnu i hyn gael ei ddarparu gan eraill lle bo angen. Byddant yn rhannu gwybodaeth berthnasol, yn rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau o ddiddordeb ac yn dweud wrthych am unrhyw hyfforddiant y gallwch chi, neu'r rhai sy'n eich cefnogi, ei gael ar wahanol gamau o blentyndod, a thu hwnt, eich mab neu'ch merch.

## Mae pob plentyn mabwysiedig yn unigryw

Mae mabwysiadu plentyn yn benderfyniad sy'n newid bywydau. Byddwn yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi am y plentyn/plant, eu gorffennol a'r hyn y gallai ddigwydd yn y dyfodol, fel y gallwch wneud penderfyniad gwybodus a bod mor barod â phosibl.

Byddwch yn cael apwyntiad unigol gyda Chynghorydd Meddygol yr asiantaeth a fydd yn eich helpu i ddeall sut beth yw iechyd eich plentyn nawr, sut y gallai fod yn y dyfodol a'r ffordd orau o'u cefnogi.

Mae pob plentyn mabwysiedig yn dod gyda'i hanes ei hun: i helpu'ch plentyn i wneud synnwyr o'i Daith Bywyd, byddwch yn derbyn deunyddiau amrywiol gan gynnwys ei Lyfr Taith Bywyd a Llythyr Bywyd Diweddarach o fewn amserlenni penodol. Mae arweiniad a chymorth ar gael i'ch helpu i helpu'ch plentyn i wneud synnwyr o'i stori wrth iddynt dyfu a datblygu.

Byddwch yn cael cymorth i reoli unrhyw gyswllt wedi'i gynllunio ag aelodau o'r teulu biolegol pan fydd hynny o fudd i'ch plentyn.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

## Cymorth y gallwch ei gael yn uniongyrchol

Gallwch gael mynediad at ystod eang o wybodaeth ar-lein o ddechrau eich taith, drwy wefan yr NAS. Mae hyn yn cynnwys y canlynol

- Podlediad mabwysiadu
- Adnoddau Taith Bywyd
- Modiwlau hyfforddi mabwysiadwyr

Mae cymorth ychwanegol ar gael i bob teulu sy'n mabwysiadu oddi wrth Adoption UK sydd â swyddfa yng Nghymru

Mae Cynllun Diwrnodau'r Miloedd Cyntaf yr AUK a'r Llinell Gymorth am ddim ar gael i chi p'un a ydych yn aelod o Adoption UK ai peidio. Os byddwch yn dewis dod yn aelod o Adoption UK, bydd mwy o adnoddau ar gael i chi.

Mae AFA Cymru hefyd yn cynnig cyngor a gwybodaeth gan gynnwys llinell gyngor.

## Pan fydd angen help arnoch gan eraill:

### Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol yr NAS

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu eu gwasanaethau mabwysiadu drwy bum rhanbarth o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru

Mae gan bob rhanbarth dîm cymorth mabwysiadu pwrpasol a fydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i chi, yn cynnal asesiadau o anghenion cymorth mabwysiadu ac yn darparu ystod o wasanaethau cymorth eu hunain neu mewn partneriaeth ag eraill. Os bydd angen, byddant yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol eraill.

**Yr Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol** Mae asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol hefyd yn darparu cyngor a gwybodaeth yn ogystal â darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu. Os bydd angen, byddant yn eich cefnogi i gael mynediad at wasanaethau drwy wasanaethau rhanbarthol.

## Darperir y gwasanaethau cymorth gan y Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol mewn partneriaeth ag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol

**Gwasanaethau Therapiwtig, Addysg a Chymorth Mabwysiadu (TESSA)** Os bydd ei angen arnoch, bydd gennych fynediad i'r gwasanaeth TESSA – gwasanaeth cymorth ymyrraeth gynnar sy'n cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid gan fabwysiadwyr profiadol a gweithwyr proffesiynol arbenigol.

### YMGYSYLLTU

Bydd eich plentyn yn cael cyfleoedd i gwrdd â phlant a phobl ifanc eraill sydd wedi'u mabwysiadu rhwng 7 a 25 oed, i gael gafael ar gymorth yn rheolaidd drwy 'Cysylltiedig' - grwpiau sydd wedi'u lleoli ledled Cymru.

### Gwasanaethau Therapiwtig, Addysg a Chymorth mewn Mabwysiadau gilydd

Os bydd ei angen arnoch, bydd gennych fynediad i'r gwasanaeth TESSA – gwasanaeth cymorth ymyrraeth gynnar sy'n cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid gan fabwysiadwyr profiadol a gweithwyr proffesiynol arbenigol.

**Athroniaeth Sylfaenol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

**Dull UN tîm:** Mae Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol, timau Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn cydweithio fel tîm o amgylch y plentyn a'r teulu.

**Y Gymuned Fabwysiadu:** dod yn rhan o gymuned fabwysiadu werthfawr ledled Cymru gyda mynediad at gymorth gan gymheiriaid yn ogystal â chyngor a gwasanaethau proffesiynol arbenigol.

**Gwasanaethau wedi'u targedu neu arbenigol:** mynediad prydlon a chyfartal at wasanaethau arbenigol os oes angen.

**Cyfathrebu a chynnwys:** rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac ymgynghori â chi wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, fel eu bod yn ymateb i anghenion sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg.